

Penwythnos



Dydd Gwener 13 Medi 10yb-4yp

Casglu Sbwriel, Yr Wyddfa

Yn hoff o'r mynyddoedd ond yn casáu sbwriel? Ymunwch â'r mynyddwr profiadol Tamsin Fretwell a Bethan Wynne, warden y Parc Cenedlaethol, i gasglu sbwriel ar lannau Llyn Llydaw ar Yr Wyddfa. Tirlun garw a mynyddig – mae angen esgidiau cerdded cryf a ffitrwydd priodol ar gyfer cerdded mynydd.

Achub Twyni Morfa Bychan

Wrth gydweithio gyda Rob a Katie o Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, byddwch yn clirio prysgwydd er mwyn gwarchod gwelltir llawn blodau system twyni Morfa Bychan, ger Porthmadog. Croeso i deuluoedd ddod draw i'r sesiwn cyn mynd draw i'r traeth i godi castell tywod! Bydd angen esgidiau cerdded cryf.

Clirio Rhododendron, Nant Gwynant

Rhywogaeth anffodrol hynod o ymledol yw Rhododendron ponticum sy'n cael effaith ddifrifol ar blanhigion ac anifeiliaid cynhenid. Dewch i'n helpu i'w gadw dan reolaeth gydag offer priodol fel llifiau yng nghwmni Llinos Alun o Awdurdod y Parc Cenedlaethol yng nghoedydd Nant Gwynant.

Cynnal Llwybrau, Craflwyn

Ar Stad Craflwyn mae rhwydwaith hanesyddol o lwybrau ar lethrau coedwigol serth. Wrth ddefnyddio rhawiau a bwyell byddwch yn cydweithio gyda warden yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Ned Feesey i drwsio llwybrau wedi eu difrodi ar gyfer y cyhoedd. Bydd angen esgidiau cerdded cryf.

Adfer Mawnogydd, Y Migneint

Ymunwch â Rachel Harvey, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, i helpu i warchod un o orgorsydd gorau Ewrop ym Mlaen y Coed, ar adran ogleddol y Migneint. Bydd y gweithgaredd hwn yn cynnwys cau ffosydd gyda byrnau o rug er mwyn cynnal dŵr a gwaddod ar y safle, a helpu i adfer y gors i'r gogoniant a fu wedi blynyddoedd o ddraenio a gorbori. Bydd angen dillad da glaw a welingtons – bydd y gwaith yn cynnwys palu a gwthio defnydd i'r ffosydd bychain gyda rhawiau ac mae'n debyg y bydd yn waith gwlyb a mwdlyd!

Dydd Sadwrn 14 Medi 10yb-4yp

Clirio Conifferau ac Adnabod Bryoffytau, Cors Bodgynydd

Fe all conifferau anffodol fod yn hynod o ymwithiol ar gynefinoedd o wlyptir a mawnogydd. Bydd y gweithgaredd hwn yn cynnwys tynnu, torri a chlirio er mwyn gwarchod mawnog Cors Bodgynydd gyda Rob a Katy o Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru. Bydd cyfle hefyd i wella eich medrau adnabod bryoffytau (mwsogl a llysiâu'r afu) yn ystod y sesiwn. Bydd angen welingtons.

Clirio Rhododendron, Nant Gwynant

Rhywogaeth anffodol hynod o ymledol yw Rhododendron ponticum sy'n cael effaith ddifrifol ar blanhigion ac anifeiliaid cynhenid. Dewch i'n helpu i'w gadw dan reolaeth gydag offer priodol fel llifiau yng nghwmni Llinos Alun o Awdurdod y Parc Cenedlaethol yng nghoedydd Nant Gwynant.

Arwyddion a Chreu Giatiau, Llennyrch

Cyfle i wneud gwaith ymarferol wrth i ni ymuno â Choed Cadw a Kehoe Countryside i greu arwyddion a giatiau pren wedi ei hollti ar fferm Llennyrch, cyn-fferm ucheldir a saif mewn tirlun sy'n cynnwys y goedwig law Geltaidd werthfawr.

Casglu Sbwriel yn Uchel ar y Mynydd, Cwm Clogwyn

Mae Cwm Clogwyn ar ochr ddeheuol Yr Wyddfa yn un o fannau mwyaf distaw y mynydd ac yn fan hyfryd i dreulio prynhawn ddiwedd haf. Yn anffodus, gyda llwybr y Snowdon Ranger ar un ochr ac arête llwybr Rhyd-ddu ar y llall, mae cryn dipyn o sbwriel wedi ymgasglu yma dros y blynyddoedd. Ymunwch â'r mynyddwr profiadol Rob Collister i gasglu sbwriel bach a mawr a'i symud i fan lle caiff ei gasglu gyda cherbyd. Sylwer ei bod yn daith eithaf hir (awr a hanner) i fyny'r rhiw i gyrraedd y cwm ac mae hi'n wlyb o dan draed mewn ambell i le felly mae angen esgidiau cerdded.

Cynnal Llwybrau, Craflwyn

Ar Stad Craflwyn mae rhwydwaith hanesyddol o lwybrau ar lethrau coedwigol serth. Wrth ddefnyddio rhawiau a bwyell byddwch yn cydweithio gyda warden yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Ned Feesey i drwsio llwybrau wedu eu difrodi ar gyfer y cyhoedd. Bydd angen esgidiau cerdded cryf.

Dydd Sul 15 Medi 10yb-amrywiol

10yb-12yp: Ysgol Goedwig Cyfeillgar i Deulu, Beddgelert

Bydd Sara o Forest Holidays yn cynnal sesiwn Ysgol Goedwig yn y bore yn y coed ger Beddgelert ar gyfer teuluoedd a phlant ifanc sy'n cymryd rhan ym Mhenwythnos MaD eleni. Dewch i ysbrydoli'r plant pan maen nhw'n dal yn ifanc!

10yb-1yp: Cofnodi Coed Hynafol, Craflwyn

Ymunwch â Kylie o Goed Cadw i wella eich medrau adnabod coed ac am gyfle i gofnodi rhai rhywogaethau o goed hynafol rhyfeddol ar stad Craflwyn, fel rhan o Restr Coed Hynafol Coed Cadw.

10yb-2yp: Casglu Sbwriel ar Iannau Llyn Padarn

Yn garedig iawn, mae Chwaraeon Dŵr Eryri wedi cyfrannu fflyd o ganŵau am y dydd ar gyfer casglu sbwriel o amgylch glannau Llyn Padarn, Llanberis. Os ydych hi'n hoffi'r syniad o fynd mewn canŵ i gasglu pob math o sbwriel o'n llyn hyfryd yna dyma'r gweithgaredd i chi! Dau ym mhob cwch, a bydd dau o arweinwyr padl profiadol yn arwain y sesiwn. Dillad glaw a welingtons yn hanfodol, cyflenwir siacedi achub. Ychydig o leoedd ar gael.

10yb-3yp: Diwrnod Darganfod Ymlusgiaid ac Amffibiaid

Diwrnod darganfod ymlusgiaid ac amffibiaid yn y Gwaith Powdwr – ymunwch â ni yn y cynffatri ffrwydron hon i ddarganfod beth yw tynged y bywyd gwyllt yno ers i ddiwydiant ddod i ben ar y safle 20 mlynedd yn ôl.

10yb-3yp: Cynnal Llwybrau, Craflwyn

Ar Stad Craflwyn mae rhwydwaith hanesyddol o lwybrau ar lethrau coedwigol serth. Wrth ddefnyddio rhawiau a bweill byddwch yn cydweithio gyda warden yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Ned Feesey i drwsio llwybrau wedu eu difrodi ar gyfer y cyhoedd. Bydd angen esgidiau cerdded cryf.

10yb-3yp: Clirio Mieri yn Nhrigonos

Canolfan encil ddistaw yn nyffryn Nantlle yw Trigonos ac ar y stad mae dolydd, coedlannau, nant a gardd lysiau organig sy'n ffinio â'r Parc Cenedlaethol. Ymunwch â Dan Goodwin o Gymdeithas Eryri am sesiwn o glirio mieri ar y stad i hyrwyddo bioamrywiaeth, a chael blas ar rywfaint o gynnyrch cartref y stad mewn cinio am ddim!

Cofrestrwch rŵan: www.cymdeithas-eryri.org.uk

Trefnir gan Organised by



Cymdeithas Eryri
Snowdonia Society

Mewn partneriaeth â In partnership with



Gyda chefnogaeth gan Supported by

